



Tachwedd 25ain, 2018



Mae oedfa deuluol y bore 'ma yng ngofal Gwion Evans a'r Parchg. Gethin Rhys. Bethan Roberts sy'n cyfeilio. Diolch yn fawr i'r tri.

Cwrdd Blynyddol

Gobeithio'n fawr y gall pawb aros am ychydig amser i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar ddiwedd yr oedfa y bore yma.

Y Suliau Nesaf

Rhagfyr 2il - Sul Pentref - **CREIGIAU**

Rhagfyr 9ed - Allan James

Rhagfyr 16 - Oedfa Nadolig a Pharti yr Ysgol Sul

Rhagfyr 23ain - Y Twmiaid gyda Geraint Rees a mins pei a diod i ddilyn
Rhagfyr 30ain - Geraint Wyn a Keith Rowlands

CASGLU DILLAD A NWYDDAU

Bydd casgliadau dillad, nwyddau a thrugareddau ar gyfer **ADREF**, a chasgliadau dillad isa a dillad tywydd gwlyb i blant yn eu harddegau ar gyfer **NANTGWYN** yn parhau, wrth i'r angen gynyddu dros fisoedd y gaeaf.




Fe fyddwn ni hefyd yn eich gwahodd i adael dillad ac offer - mawr a bach - ar gyfer babanod ifanc yn y capel, er mwyn cefnogi **CWTCH**, elusen sy'n cydweithio gydag ymwelwyr ieuchyd a gweithwyr cymdeithasol i helpu mamau anghenus, ac wedi ei lleoli mewn warws yn Ffynnon Taf. Gofynnwn i chi labelu'r bagiau fel ein bod yn eu danfon i'r elusen benodol. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth bob amser.

AMLENNI BROWN 2018

Gan fod tymor elusennau 2018 yn prysur ddod i ben, dyma eich atgoffa am yr elusennau fydd yn derbyn cymorth ariannol o'r casgliad eleni:
Adref, Ysgol Tŷ Coch
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Cymorth i Ferched Cymru a Cymdeithas Nychdod Cyhyrol Duchenne a Becker

Mae gwybodaeth am waith yr elusennau hyn a llawer arall ar wefan y capel:
www.tabernacl.org



Prifysgol Cymru
Y Ddrindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Canolfan
Berfformio
Cymru

MYNEDIAD AM DDIM / FREE ADMISSION
SWYDDFA DOCYNNAU / BOX OFFICE:
WWW.THEGATE.ORG.UK | 029 2048 3344

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com

TALEBAU NADOLIG 2018

Mae hi'n amser unwaith eto i ni ddangos ein cefnogaeth i bobl ifanc yr ardal sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn cael rywfaint o gysur a llawenydd dros y Nadolig. Ein nod ydy cyflwyno taleb gwerth £25 i ugain o bobl ifanc. Os ydych chi'n awyddus i gyfrannu'n ariannol at hyn, byddai Gill, Eleri, John Llew neu Ann Dwynwen yn falch o dderbyn eich rhoddion. Byddwn yn cyflwyno'r talebau ganol mis Rhagfyr, a bydd y bobl ifanc yn eu gwario dan arweiniad eu gweithwyr cymdeithasol.

Merched y Tabernacl

Yn y Ganolfan, bore lau, Rhagfyr 6ed am 10.30.
**'Danteithion y Nadolig' gyda
Eluned Davies Scott.**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 4 Rhagfyr. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater i'w godi gyda'r Bwrdd yna cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws, erbyn nos Lun 3 Rhagfyr fan bellaf (gehpengwern@yahoo.co.uk neu [01443 225205](tel:01443225205)).

BANC BWYD TAF ELÁI

Mae hi'n amser casgliad Tesco unwaith eto. Casgliad sy'n mynd i wneud gwahaniaeth enfawr i deuluoedd sy'n derbyn cymorth gan y Banc Bwyd.

Bydd y casgliad dros dridiau fel arfer, o ddydd Iau Tachwedd 29ain i ddydd Sadwrn Rhagfyr 1af gyda thair shifft: 10-12, 12-2, 2-4. Os ydych chi ar gael i helpu, plis cysylltwch cyn Tachwedd 25ain, gan nodi diwrnod a shifft.

Mae cynrychiolaeth anrhydeddus ohonon ni'n helpu aelodau Bethel Pontyclun bob blwyddyn, a bydd ein hangen ni fwy nag erioed eleni oherwydd y caledi sy'n wynebu cymaint o bobl ar garreg ein drws.

Ann Davies - ann.pentyrch@btinternet.com
02920 891344

Merched y Wawr

Cynhelir oedfa Nadolig y Rhanbarth yma yn y capel ar b'nawn Sul 2il Rhagfyr am 3. Croeso cynnes i holl ferched y capel i ymuno gyda nhw.

Tê Nadolig i'r Pentref

Ar b'nawn Sul 23ain Rhagfyr am 3 cynhelir tê traddodiadol yn y Ganolfan i geisio rhannu ysbryd y nadolig, yn enwedig i'r rhai sy'n cael nadolig ar eu pennau eu hunain. Daw rhestr rownd am gymorth.

FFAIR NADOLIG Y PENTREF

15 Rhagfyr 12 - 4 p.m

Mae cais am help ar stondinau, ond hefyd angen cacennau a bric a brac. Mynnwch air gyda Caroline Rees os gwelwch yn dda.

Ymgyrchoedd Nadolig yr Ysgol Sul

RCT Women's Aid – Os allwch chi gyfrannu unrhyw nwyddau hylendid i ferched, byddwn yn creu bocsys i'w dosbarthu yn lleol. Dyma'r linc i'r wefan am ragor o wybodaeth. Bydd angen eich cyfraniadau erbyn dydd Sul, Rhagfyr 9fed

<https://www.wa-rct.org.uk/news/christmas-gift-appeal-2018>

Pobl Ddi-gartref – os fedrwyd chi gyfrannu pâr o sannau a llenwi un hosan gyda nwyddau defnyddiol e.e nwyddau hylendid, losin neu siocled, crib, menyg, wet wipes, dillad isaf. Cofiwch roi'r hosan arall ynddi hefyd! Byddwn yn trosglwyddo'r eitemau i'r criw sy'n helpu gyda bobl ddi-gartref yng Nghaerdydd.

O heddiw ymlaen bydd 2 focs ar lawr cynta'r capel i dderbyn eich cyfraniadau. Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth

Bydd 3 taflen yn cael eu pasio rownd yn ystod yr oedfa heddiw i gasglu enwau ar gyfer blodau 2019, croesawu wrth y drws ffrynt cyn oedfaon a help gyda the nadolig prynhawn i'r pentref

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu

